

Helpwch ni i helpu pobl sy'n cyflawni troseddau i newid

Bydd llawer o deuluoedd a pherthnasoedd yn teimlo mwy o bwysau yn ystod cyfyngiadau Covid-19; ac ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cham-drin domestig, gallai hyn achosi niwed difrifol. Ar yr un pryd, mae llawer o'r gwasanaethau cymorth wedi eu cyfyngu neu eu haddasu.

Serch hynny, mae cyflawnwyr troseddau yn dal i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad camdriniol a dylem eu dwyn i gyfrif.

Mae Llinell Ffôn Respect yn ffynhonnell cymorth allweddol i bobl sy'n pryderu am eu hymddygiad ac eisiau ei reoli a'i newid. Nawr yn fwy nag arfer, mae Llinell Ffôn Respect yn hanfodol i gyflawnwyr ac eraill sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu hymddygiad. Mae angen iddynt wybod bod cymorth ar gael a bod dim esgus dros gam-drin.

Negeseuon allweddol

- Nid oes esgus dros gam-drin
- Mae'r gyfraith yn berthnasol o hyd
- Pan fo'r byd yn teimlo'n anniogel, peidiwch â pheri i'ch cartref fod yn anniogel
- Mae gennych chi ddewis o hyd. Dewiswch beidio â cham-drin
- Ydych chi'n teimlo o dan straen ac yn poeni y bydd eich ymddygiad yn brifo'r bobl rydych yn eu caru?
- Rydym yma i'ch helpu i reoli eich ymddygiad.
- Os ydych yn poeni y byddwch o bosibl yn niweidio anwylyn, ceisiwch gymorth cyn i chi fynd yn gamdriniol
- Os yw'r epidemig coronafeirws yn rhoi pwysau ar eich perthynas a chithau'n poeni am eich ymddygiad a'r effaith y mae'n ei chael ar bobl eraill o bosibl, mynnwch help trwy ffonio Llinell Ffôn Respect

#LlinellFfônRespect #DimEsgusdrosGam-drin #Cam-drinDomestig
#DiogelGartref #Covid19uk #Covid19 #Coronafeirws

Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus iawn. Gyda data monitro o 16 Mawrth, pan gafodd mesurau Covid-19 eu cyflwyno, tan 19 Ebrill, gwelsom fod:

- Galwadau i Linell Ffôn Respect wedi cynyddu gan 97%
- E-byst gan 185%
- Ymwelwyr â'r wefan gan 581%